COFNODION CYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Hydref 12fed, 2016 am saith o'r gloch

PRESENNOL

John Gwilym Jones (Cadeirydd), Alun Jones (Is-gadeirydd), Thelma Cordingley, John E. Griffiths, Wyn Griffiths, Gwilym Hughes, Robert M. Jones, Dylan Llwyd, Catherine Ll. Morris, Erfyl W. Roberts, O. Hefin Roberts, William B. Williams, Cynghorwyr John B. Hughes a R.H. Wyn Williams (Cyngor Gwynedd)

YMDDIHEURIADAU

R. Phillip Roberts

Croesawodd y Cadeirydd bawb a llongyfarchodd Cyng. Dylan Llwyd ar ei briodas diweddar. Dymunwyd pen-blwydd hapus arbennig hwyr i'r Cadeirydd hefyd.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y Cynghorwyr a ganlyn fuddiant yn yr eitemau isod:

- John Gwilym Jones a Catherine Ll. Morris yn 2. Ceisiadau Cynllunio: C16/0951/39/RC – Diwygio Cytundeb 106 Angen Fforddiadwy neu gynnig cyfraniad ariannol at dai fforddiadwy yn Awel Neigwl, Sarn Bach, gan fod JGJ yn berchennog tŷ â Chytundeb 106 a CLlM yn rhedeg busnes tai gwyliau a bwthyn 106 ar fferm
- Catherine Ll. Morris yn 2. Ceisiadau Cynllunio: C16/0968/39/RC, C16/0969/39/RC a C16/0974/39/LL – Addasu adeiladau allanol yn unedau gwyliau – Ty'n y Cae, Llangian
- John Gwilym Jones a Dylan Llwyd yn 2. Ceisiadau Cynllunio: C16/1195/39/LL – Estyniad llawr cyntaf uwchben y modurdy a phorth gwydr cefn – Bron Gadair, Mynytho, gan eu bod yn cyflogi/gweithio â'r ymgeisydd [Cyrhaeddodd DLl y cyfarfod cyn trafod y cais hwn]
- Gwilym Hughes, Alun Jones, John Gwilym Jones, Dylan Llwyd a Catherine Ll. Morris yn 2. Ceisiadau Cynllunio: C16/1226/39/LL – Sefydlu safle carafannau teithiol i 15 carafán – Castellmarch, Aber-soch, gan eu bod yn berchnogion meysydd carafannau teithiol eu hunain
- Catherine Ll. Morris a'r Clerc yn 4f) Henry Jones (Cricieth) Ltd. – Mynwent y Bwlch, oherwydd cysylltiad CLlM â'r cwynwyr a'r Clerc â'r ymgymerwr
- Gwilym Hughes yn 7. Materion Hawliau Tramwy – Llwybrau Cyhoeddus a) Llwybr 18 – Mynydd Cilan i Gerrig Lwyd gan mai ef yw perchennog y tir dan y llwybr.

2. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Fedi 14eg, 2016 yn gywir.

3. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C16/0951/39/RC Diwygio Cytundeb 106 Angen Fforddiadwy neu gynnig cyfraniad ariannol at dai fforddiadwy – Awel Neigwl, Sarn Bach **– Ni dderbyniwyd y ddogfennaeth gywir â'r cais felly, ni ellir anfon sylwadau arno. E-bostiwyd yr Adran Gynllunio ar Fedi 25ain i ofyn am y rhai cywir ac os symudid dyddiad olaf derbyn sylwadau ond, unwaith yn rhagor, ni dderbyniwyd ateb na dogfennau newydd**

C16/0968/39/CR Addasu adeilad allanol yn uned wyliau – Ty'n y Cae, Llangian **– Cefnogir [Datgan Diddordeb – CLLM]**

C16/0969/39/LL Addasu adeilad allanol yn uned wyliau – Ty'n y Cae, Llangian **– Cefnogir [Datgan Diddordeb – CLLM]**

C16/0974/39/LL Addasu adeilad allanol yn ddwy uned wyliau – Ty'n y Cae, Llangian **– Cefnogir [Datgan Diddordeb – CLLM]**

C16/0992/39/CC Gwaith cynnal a chadw ar dair coeden sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed – Min y Don, Aber-soch **– Cefnogir**

C16/1080/39/LL Lolfa wydr unllawr i'r cefn – Dwyfor, Mynytho – **Cefnogir**

C16/1105/39/LL Estyniad i adeilad hamdden er mwyn ymestyn spa presennol, gan gynnwys ystafelloedd triniaeth, pyllau, lle bwyta ac ystafelloedd newid – The Warren, Aber-soch **– Cefnogir**

C16/1121/39/LL Cais Ôl-weithredol ar gyfer estyniad i'r lolfa haul bresennol, codi ardal llwyfan a strwythur ar wahân – 9 Ystád Mur Poeth, Mynytho **– Cefnogir**

C16/1145/39/YA Adeiladu sied amaethyddol i storio offer a pheiriannau – Ty'n y Cae, Llangian ***[Derbyniwyd dyfarniad cyn ei drafod – fe'i ganiatawyd yn ddi-amodol]***

C16/1185/39/LL Estyniad deulawr ar dalcen dwyreiniol y tŷ, ynghyd â newidiadau – 1 Bryn Llawen, Llanengan **– Cefnogir ar yr amod na ddefnyddir y sinc a'i fod yn cydweddu â drws nesaf**

C16/1195/39/LL Estyniad llawr cyntaf uwchben y modurdy a phorth gwydr cefn – Bron Gadair, Mynytho **– Cefnogir [Datgan Diddordeb – JGJ, DLL]**

[Cyrhaeddodd DLl y cyfarfod cyn trafod yr uchod. Cymerodd yr Is-gadeirydd y gadair i drafod y cais uchod.]

C16/1224/39/LL Dymchwel tŷ presennol a chodi un newydd gromen yn ei le – Pen y Ffordd, Yr Harbwr, Aber-soch – **Cefnogir ond, unwaith yn rhagor, mynegir pryder ac anfodlonrwydd am ddymchwel tŷ arall yn Aber-soch**

C16/1226/39/LL Sefydlu safle carafannau teithiol i 15 carafán – Castellmarch, Aber-soch **– Cefnogir [Datgan Diddordeb – GH, AJ, JGJ, DLL, CLLM]**

[Cymerodd y Cyn-gadeirydd y gadair i drafod y cais uchod]

4. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus**

i) ***Tyddyn Callod, Aber-soch***

- Ni dderbyniwyd cydnabyddiaeth nac ateb i'r llythyr a anfonwyd at Sharon Edwards, Cyfarwyddwr CS Aluminium, yn bygwth cysylltu â chyfreithiwr y Cyngor oni ddatrysid y broblem.
- Derbyniwyd sylwadau am doiledau cyhoeddus Pwllheli a Phorthmadog – derbynia drysau rhai Pwllheli gamdriniaeth cyson, yn arbennig drws y

dynion drwy wthio papur ac ati i'r clo a'r peiriant hel arian ac fe'u cicir yn gyson sy'n effeithio ar yr '*automatic door closer*'. Nid oes trafferth, am ryw reswm, â thoiledau Parc, Porthmadog, er nad ydynt yng ngolwg y ffordd fawr.

- Deallwyd mai'r glanhawyr sy'n agor a chau'r toiledau ers i'r person lleol ymddiswyddo (Mawrth 21ain tan Orffennaf 12fed).

ii) ***Toiledau Cyhoeddus Gwynedd***

Oherwydd salwch diweddar, ymddiheurodd Anwen Davies, Rheolwr Cyswllt Mentrau Cymdeithasol, na allai fod yn bresennol heno ond, anfonodd nodyn am rai o'r pwyntiau a godwyd yn y sgwrs ffôn:

1. mae cyfraniad Cyngor Tref Nefyn yr un faint â Llanengan a chytunodd gyfrannu, fel gwnaeth mwyafrif y cynghorau erbyn hyn
2. ymgeisiodd am nawdd o £160,000 o Gronfa Cynllun Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru ar gyfer adnewyddu toiledau mewn partneriaethau hir dymor
3. mae modd i gynghorau cymuned ymgeisio am nawdd o'r Gronfa Datblygu Cymunedol drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig i adnewyddu toiledau cyhoeddus.

O ganlyniad, penderfynwyd cyfrannu at y flwyddyn ariannol nesaf a chynnal trafodaeth bellach.

b) **Glanhau Afon Soch**

Derbyniwyd e-bost un linell oddi wrth Roberts Ffestiniog – "Mae Dic newydd fod yma a mae o wedi neud ar hyd yr afon sydd ar y map." Mynegwyd anfodlonrwydd â hyn, oherwydd pan ymwelodd 'Dic' yn annisgwyl ym mis Ebrill, cytunodd mewn sgwrs â'r Cadeirydd, y marciai'r union fan a gliriodd ar gynllun o'r afon. O ganlyniad, deil y mater heb ei ddatrys.

c) **Cheshire Lamont – Gwesty'r Harbwr/Llwybr Estyllog at lan Afon Soch**

i) ***Cynllun Tai*** – Ni dderbyniwyd ateb oddi wrth y datblygwyr yn dilyn gofyn a benderfynwyd ar yr enw eto, yn arbennig gan fod y datblygiad yn tynnu at ei derfyn.

ii) ***Wayleave –*** Derbyniwyd galwad ffôn oddi wrth ScottishPower – ni chysylltwyd â'r Cyngor yn dilyn derbyn y ffurflen Wayleave ym mis Rhagfyr 2015 oherwydd deil trafodaethau ag un perchennog tir.

iii) ***Llwybr Estyllog*** – Derbyniwyd anfonebau am y gwaith profi dyfnder/ caletwch oddi wrth Celtest a'r contractwr am baratoi'r safle at y profion (gweler 16. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod). Gan nad oedd Datrys yn fodlon â chanlyniadau'r profion, awgrymwyd cynnal rhai eraill ond, yn dilyn derbyn amcanbris o £688.00 + TAW a chostau ychwanegol, penderfynwyd, yn anffodus, na ellir parhau â'r cynllun oherwydd y gost – gwariwyd £3612.82 hyd yma a dim i ddangos amdano. Hysbysir Datrys a'r contractwr [a awgrymodd y buasai'n fwy buddiol a haws pe medrid creu llwybr i ddod allan ar y bont] o'r penderfyniad.

ch) **Archwiliad Cyfrifon 2015 – 2016**
Ni dderbyniwyd y ffurflen i'w chymderadwyo erbyn heno, felly bydd rhaid cynnal cyfarfod arbennig i wneud hynny. Mynegodd y Clerc pa mor rwystredig yw'r mater ac y derbyniodd alwadau ffôn i ofyn am fwy o dystiolaeth a gwybodaeth am y cyfrifon oddi wrth BDO, Yr Archwilwyr Allanol, er yr ymatebodd yn llawn i'r cais gwreiddiol; nid oedd yr un swyddog yn siarad Cymraeg.

d) **Tai Fforddiadwy Cornwall, Mynytho**
Derbyniwyd ymholiad am farn yr aelodau a ymwelodd â'r datblygiad uchod oddi wrth Catrin V. Roberts, Rheolwr Cartrefi Fforddiadwy Grŵp Cynefin. Gofynna, hefyd, a oes yna unrhyw beth ychwanegol y gellid ei wneud i sicrhau o ran marchnata/enwebu'r eiddo i unigolion o fewn y dalgylch, yn unol ag Amod 106. Awgrymwyd cysylltu â'r rhai a ddangosodd ddiddordeb ar y dechrau, ynghyd â'u hysbysebu trwy Beresford Adams.

dd) **Graddfeydd Cyflogau Clercod 2016 – 2018**
Trefnir cyfarfod o'r Is-bwyllgor i drafod cyflog y Clerc nos Fercher nesaf, Tachwedd 19eg – yma yn y Ganolfan.

e) **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl) Gwynedd a Môn – Amserlen Ddrafft yr Archwiliad**
Mynychodd Cyng. Wyn Williams y gwrandawiad ar y ddarpariaeth tai tu allan i'r ffin ddatblygu yn Aber-soch (pedwar cais) a rhoddodd adroddiad byr o'r hyn a drafodwyd; roedd yn gyfarfod teg a disgwylir dyfarniad yr Arolygwr ym mis Ionawr/ Chwefror.

f) **Henry Jones (Cricieth) Ltd. – Mynwent y Bwlch**
- Trefnir cyfarfod i ddiwygio a diweddaru Rheolau'r Fynwent, a fabwysiadwyd ym mis Rhagfyr 2011, yn fuan.
- Gadawodd y CLlM a'r Clerc y cyfarfod pan drafodwyd y cwynion a dderbyniwyd am y fynwent. Anfonir llythyr at yr ymgymerwr/torrwr beddi.

ff) **Ceisiadau Cynllunio – C16/0629/39/LL – Diddymu Amodau 3 a 4 o Ganiatâd Cynllunio C13/0594/39/LL er mwyn defnyddio uned wyliau bresennol fel tŷ annedd – Tafliad Carreg, Llysfor, Aber-soch**
Ni dderbyniwyd ateb oddi wrth yr Adran Gynllunio yn dilyn gofyn am eglurhad pam y caniatawyd yr uchod.

g) **Came & Company – Yswiriant y Cyngor 2016 – 2017**
Cysylltwyd â Came & Company i ofyn a allai Hiscox ostwng ei bris (gwnaeth i £948.52) ond, gan nad ymatebodd mewn pryd, derbyniwyd un Zurich – gweler 16. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.

ng) **Luke O'Connor – Prosiect Tanddaearu Ceblau Tir Comin Mynytho**
Anfonir cytundeb 'wayleave' i'w harwyddo maes o law.

h) **Cyng. Wyn Williams – Cae Chwarae Aber-soch**
Ni dderbyniodd brisiau na mwy o wybodaeth am osod *astroturf*.

i) **Clorian Cymru – Teledu Cylch Cyfyng**
Ni ymgeisiwyd am nawdd yr Heddlu oherwydd na fuasai'r cais yn unol â'r gofynion a buasai'n rhaid iddo fynd i bleidlais trigolion Gogledd Cymru. O ganlyniad, penderfynwyd archebu'r camerâu newydd/uwchraddio a rhai i'r toiledau, yn unol â'r ddau amcanbris a dderbyniwyd ym mis Medi.

5. **MATERION CYNLLUNIO**

a) **Mynedfa Newydd Castell, Lôn Pont Morgan, Aber-soch**
Er yr addawodd perchennog Castell anfon cais cynllunio ar gyfer y fynedfa pan gyfarfu â'r Uwch Swyddog Gorfodaeth ar y safle, ni wnaeth ac, o ganlyniad, anfonir llythyr ffurfiol ato.

6. **MATERION PRIFFYRDD**

a) **Golau Stryd ar Lôn Hawen, Aber-soch**
Cwblhawyd y gwaith erbyn hyn a derbyniwyd yr anfoneb (£3,800 + TAW – gweler 16. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod).

b) **Gwasanaeth Cyfreithiol – Rhybudd Cau Lôn Engan, Aber-soch**
Copi o'r uchod – cwblhawyd y gwaith erbyn hyn.

c) **Materion Cynnal a Chadw yn y Gymuned**
i) ***Ciosg Llanengan*** – torrwyd y tyfiant erbyn hyn. Adroddodd y Clerc iddi ddarllen yn rhywle y gosodwyd diffibrilwyr a llyfrau i'w gwaredu mewn ciosgs nas defnyddir erbyn hyn.
ii) ***Mainc Sarn Bach*** – angen torri'r tyfiant sydd wedi'i hamgylchynu; penderfynwyd gofyn i gontractwr y llwybrau. Ychwanegwyd bod angen paentio mainc Bwlchtocyn hefyd – penderfynwyd cysylltu â phaentwyr lleol i ofyn am amcanbris.
iii) ***Coed ger Ysgubor Wen*** – mynegwyd pryder am y rhain, gan fod cerddwyr yn gorfod camu allan i'r ffordd mewn man di-balmant peryglus ar y gorau; cysylltir â'r Adran.

ch) **Parth 20 m.y.a. ar Lôn Gwydryn, Aber-soch**
Derbyniwyd cais oddi wrth Bennaeth Ysgol Aber-soch yn gofyn a ellid cefnogi ei chais i atal gyrru ar hyd y ffordd o flaen yr ysgol (er bod twmpathau arafu cyflymder arni) a'i gwneud yn barth 20 m.y.a. Ychwanegodd Cyng. Wyn Williams yr ymwelodd swyddogion â'r ysgol eisoes a bod y disgyblion wrthi'n dylunio poster ar ei gyfer; penderfynwyd cefnogi'r cais.

7. **MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS**

Derbyniwyd ateb oddi wrth Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, parthed yr isod:

a) ***Llwybr 18 – Mynydd Cilan i Garreg Lwyd***

Awgrymodd y dylai'r Cyngor ei drafod ymhellach, yn dilyn ei sgwrs â'r Cadeirydd yn yr haf, ac y bodlonai ddod i gyfarfod eto pe bai angen. Eglurwyd yr hyn a drafodwyd a chytunodd pawb mai gwastraff arian fyddai ailagor y llwybr, gan fod Llwybr yr Arfordir mor hwylus ac agos yn is lawr; cysylltir â'r trigolyn lleol a holodd a fyddai modd ei ailagor i'w hysbysu o'r penderfyniad.

b) ***Ffens ger Isfryn, Mynytho***
Mae angen edrych trwy'r hen ffeil llwybrau cyhoeddus.

c) ***Torri'r Llwybrau***
Ymatebodd DWO i'r sylwadau a wnaeth y contractwr ar ôl torri'r llwybrau:

- tirfeddiannwr sy'n gyfrifol am goed a ddisgyn dros lwybr fel arfer ond, trefna rhywun gael golwg arni cyn gynted â phosibl
- ni wyddai am y bont sy'n croesi'r cwrs golff ond, awgrymodd efallai mai'r un sydd ar Lwybr 38a ydyw – cytunodd Cyng. Wyn Williams â hyn ond, cysylltir â'r contractwr i'w holi'n iawn
- pryderodd am ddatblygiad Capel Cilan oherwydd hyn – bwriada gadw golwg ar y sefyllfa ond, gofynna a allai rhywun lleol dynnu lluniau os rhwystrir y llwybr (digwydd hyn dros ben-wythnos fel arfer) cyn dod i benderfyniad terfynol gosod bolard.
- ***Cytundeb 2017*** – Dealla yr anfonir llythyr pellach at gynghorau cymuned a thref yn y dyfodol agos parthed torri llwybrau ar ran y Cyngor am y flwyddyn ariannol nesaf – lleiheir yr ad-daliad i 50% o'r swm cyfartaledd o gymharu â 75% eleni. Cysylltir ag o eto i ofyn am ei farn parthed y ffordd y trefnwyd y llwybrau i wardiau'r gymuned cyn hysbysebu.

ch) ***Giât Fochyn yn Riffli (Llwybr 12)***
Buasai'n rhaid cael caniatâd y perchennog tir oherwydd y byddai'n welliant ar lwybr – gofyn am gadarnhad o hyn.

d) ***Llwybr y Morwyr – Nefyn i Aber-soch***
Derbyniwyd copi o ohebiaeth a anfonwyd at Cyng. Wyn Williams parthed yr uchod oddi wrth Cyng. Gruff Williams, Nefyn – gofynna am enw perchnogion tir er mwyn agor ychydig ar y ffosydd sy'n rhedeg lawr at Afon Soch o Fynytho ar gyfer y prosiect a ariennir gan Gyngor Tref Nefyn drwy Gronfa Cymunedau Arfordirol; anfonir y manylion ato.

dd) ***Pamffledyn Cymdeithas Cerddwyr Cymru – Llwybrau i Bobl, Canllaw i Lwybrau Cyhoeddus ar gyfer Aelodau Cynghorau Tref a Chymuned***
Mae'n bamffledyn 'reit dda' â'r wybodaeth yn ddefnyddiol ond, nid yw'n gant y cant sicr os yw popeth yn gywir o ran pwerau cynghorau cymuned a, hefyd, yr awgrym y gallent ymgymryd â gwaith megis codi arwyddbyst – rhaid cofio bod angen darganfod os oes gwasanaethau dan y ddaear a.y.y.b. Awgrymodd, efallai, y byddai cael rhyw fath o bartneriaeth â'r gymdeithas yn un a fydd o fudd i bawb fel fydd y toriadau yn dechrau brathu.

8. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**

i) ***Holiadur Trosglwyddo Asedau Cymunedol/O Werth Cymunedol***
Fe'i datblygwyd er mwyn ceisio gweld beth yw lefel y cymorth a gynigir i sefydliadau cymunedol led-led Cymru a ddymuna drosglwyddo asedau cymunedol.

ii) ***Ymateb i'r Cynnig ar Uno Ardaloedd Cyfiawnder Lleol yng Nghymru***
Llythyr, er gwybodaeth, yn nodi mai'r ail opsiwn a ffafriwyd gan y mwyafrif a ymatebodd i'r ymgynghoriad, sef (o ddiddordeb i'r Cyngor hwn) uno Gwynedd ac Ynys Môn i greu ACLl Gogledd Orllewin Cymru.

iii) ***Neges oddi wrth Swyddog Datblygu Gogledd Cymru – Pwyllgor Ardal Arfon Dwyfor***
Tynnodd sylw at dri pheth – 1. bod gwahoddiad i unrhyw un fynychu'r cyfarfod i drafod ymgynghoriad y Llywodraeth ar Safonau'r Gymraeg mewn perthynas â'r iaith Gymraeg; 2. linc i wefan Arloesi Gwynedd Wledig a 3. yr anghofiodd sôn iddi dderbyn ymateb i'r llythyr a anfonodd am bryderon y Pwyllgor am y gwair uchel ar ochrau'r ffyrdd ac mewn mynwentydd dros yr haf – atododd gopi ohono.

iv) ***Holiadur Pwyllgor Diwylliant, yr Iaith Gymraeg a Chysylltiadau – Ar beth ddylai Ganolbwyntio?***
Cais i ymateb i'r uchod oddi wrth Bethan Jenkins, AC.

v) ***Diwygio Llywodraeth Leol – Y Diweddaraf***
Datganiad gan Mark Drakeford, AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, parthed yr uchod.

vi) ***Newyddlen Gwylio Cyflymder Cymunedol Gogledd Cymru***
Copi, er gwybodaeth.

b) **Llywodraeth Cymru**

i) ***Arolwg Datblygu Cymunedol ac Economaidd y Canolbarth a'r Gorllewin***
Cais i ymateb i'r uchod oddi wrth Eluned Morgan, AC dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru.

ii) ***Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru)***
Gwahoddiad i gymryd rhan mewn trafodaeth ar-lein ar yr uchod.

iii) ***Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2017 – 2018 – Adroddiad Blynyddol Drafft***
Ymgynghoriad – angen sylwadau erbyn Tachwedd 28ain.

iv) ***Ymgynghoriad Diwygio'r Ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Dreth Gyngor i adlewyrchu'r premiymau a gyflwynir ar gartrefi gwag tymor hir ac ail gartrefi***
Angen sylwadau erbyn Rhagfyr 1af.

c) **NatWest – Newid Graddau Llog**
Gostyngir y llog ar gyfrifon 'Business Reserve' o Dachwedd 7fed i 0.05%.

ch) **Guto Rhys Tomos – Gwasanaeth Agor Beddi a Thorri Coed**
Llythyr yn cyflwyno'i hun a'i gwmni (PlatfformsCymru) ar gyfer y gwaith uchod.

d) **Awdurdod Tân ac Achub Fforddiadwy ar gyfer Gogledd Cymru – Ymgynghoriad Gwasanaethau Tân ac Achub Fforddiadwy ar gyfer Gogledd Cymru**
Angen sylwadau erbyn Rhagfyr 12fed.

dd) **Gwasanaeth Cynllunio – Ymgynghoriad ar Giosgs BT**
Copi o lythyr a dderbyniodd y Gwasanaeth Cynllunio oddi wrth BT yn rhestru nifer o giosgau ffôn mae am ei waredu; angen sylwadau erbyn Tachwedd 18fed. Y rhai dan sylw yn y gymuned hon yw'r ddau ym Mynytho (Swyddfa'r Post a Parciau) a'r un ger Bodlondeb, Sarn Bach. Nodir faint o alwadau a wnaed ohonynt yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (pump a dim o rai Mynytho ac un o Fodlondeb); penderfynwyd eu gwaredu.

12. **MEDDYGFA ABER-SOCH**

Holwyd pam caewyd y feddygfa am wythnos (h.y. tri bore'n unig) a thynnu trigolion y gymuned hon i Fotwnnog am bigiadau'r ffliw (er y deellir y ceir pigiad am ddim yn Fferyllfa Aber-soch hefyd); mae'n bell i fynnu bod cleifion oedrannus yn mynd yno am cyn lleied o amser. Adroddwyd, hefyd, y costia gwasanaeth O Ddrws i Ddrws £11.00 i fynd yn ôl ac ymlaen i Fotwnnog o'r ardal hon – costus iawn i bensiynwyr os ydynt yn gorfod ymweld â'r meddyg neu'r nyrs yn rheolaidd.

13. **CYNG. WYN WILLIAMS – DIOGELWCH NOFWYR RHAG CYCHOD PLESER**

Adroddodd y cynhaliwyd cyfarfod buddiol i drafod diogelwch nofwyr a dolffiniaid rhag cychod pleser yn ddiweddar. Bydd rhaid i bob cwch pleser/jet sgi arddangos bathodyn/ sticer yn 2017 a sicrhawyd y plismonir ar y môr mewn cwch hefyd. Ychwanegodd y bu Marchros yn llewyrchys yn ystod yr haf. Darllenodd y Clerc erthygl a ymddangosodd yng nghylchgrawn SLCC (*Clerks & Councils Direct)* ym mis Medi, '*Call for Crackdown on Maritime Louts'*; sonia am y petisiwn a arwyddwyd gan bron i bedwar cant o bobl oherwydd y peryglon hyn.

14. **RHEOLIADAU ARIANNOL/SEFYDLOG, ASESU RISG AC ADOLYGU POLISÏAU**

Trafodwyd asesu risg yn fras a phenderfynwyd ei gynnal yn iawn cyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Dosberthir ffeil yn cynnwys yr oll o'r uchod o'r newydd i bawb.

15. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO AC YMHOLIADAU CYN CYFLWYNO CAIS**

C16/0938/39/LL	Estyniad llawr cyntaf uwchben y modurdy, porth blaen, balconi cefn a decing, ynghyd ag addasiadau – Melville House, Lôn Tŷ Gwyn, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C16/0991/39/TR	Codi llinell drydan newydd a dymchwel rhannau o linell bresennol – Aber-soch – Cae'r Eglwys, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C16/1039/39/LL	Dymchwel modurdy presennol ac adeiladu un newydd – Ger y Môr, Stryd Fawr, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C16/1145/39/YA	Adeiladu sied amaethyddol i storio offer a pheiriannau – Ty'n y Cae, Llangïan – **Caniatawyd yn ddi-amodol**

C16/1153/39/AC Rhyddhau Amodau 6 ac 8 – o Ganiatâd Cynllunio C16/0139/39/LL – Fairfield, Lôn Golff, Aber-soch – **Caniatawyd yn ddi-amodol**

YMHOLIADAU CYN CYFLWYNO CAIS

C16/1000/39/YM Codi uchder y to'r tŷ i greu ystafelloedd yng ngofod y to – 16 Lôn Cernyw, Bwlchtocyn
C16/1091/39/YM Estyniad ac addasiadau – Pen Cei, Aber-soch
C16/1092/39/YM Cyfnewid ac ymestyn balconi – 244 Cae Du, Aber-soch
C16/1131/39/YM Adeiladu tŷ newydd – Miriant Rise, Mynytho

16. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau
Cadarnhawyd talu cyflog mis Hydref y Clerc (Rh/S 002019), ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Cyngor Gwynedd – £169.02 (Rh/S 002015 – Gwagio Biniau Baw Cŵn mis Gorffennaf)
b) D.W. Roberts – £542.50 (Rh/S 002016 – Torri Coed ac ati ar gyfer Profion Celtest/ Datrys yng Nghoed yr Allt)
c) Cyngor Gwynedd – £4560.00 (Rh/S 002017 – Cyflenwi a gosod golau stryd yn Lôn Hawen, Aber-soch)
ch) Ted Hughes – £450.00 (Rh/S 002018 – Torri gwellt ar y bont a'r darn tir ger Wylfa, Lôn Golff, Aber-soch)
d) Bacstal Pac – £93.91 (Rh/S 002020 – Gweinyddu Cyflogau)
dd) Celtest – £624.00 (Rh/S 002021 – Profi Tir glan Afon Soch)

Derbyniadau
a) Arian Mynediad y Toiledau – £48.30 (£28.50, £12.70 a £7.10)
b) Andrew Skitt – £100.00 (Rhif 100201 – Rhent Pen y Mynydd, Mynytho)

17. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Tachwedd 9fed, 2016 am saith o'r gloch